



Senedd Myfyrwyr

Hysbysir aelodau Senedd y Myfyrwyr y cynhelir y cyfarfod nesaf fel y dangosir isod:

Dydd Llun 29 Tachwedd 2018

Ystafell 4J, 4ydd Llawr Undeb y Myfyrwyr 5yh

Agenda

Cysylltwch â Thîm Llais Myfyrwyr ar 02920 781435 neu e-bostiwch democracy@caerdydd.ac.uk i drafod unrhyw ychwanegiadau neu newidiadau sydd gennych neu i gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r eitemau isod ar yr agenda.

I Eitemau Sylfaenol:

- A. Ymddiheuriadau
- B. Croeso gan y Cadeirydd
- C. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

II Eitemau Undeb y Myfyrwyr:

- A. Cynigion ar gyfer newid Senedd y Myfyrwyr

III. Eitemau a Gyflwynwyd:

A. Dim Gwellt Plastig yn yr Undeb	9
B. I Undeb y Myfyrwyr sicrhau amddiffyn myfyrwyr sy'n ymwneud â gwaith rhyw.	9
C. Sicrhau bwrsariaethau a grantiau ar gyfer ôl-raddedigion mewn angen.....	11
D. Sychwyr dwylo gwell yn y ASSL.....	13

IV. Unrhyw Fusnes Arall:

- 1. Cynigion sy'n Darfod

C. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Senedd MyfyrwyrDydd Mawrth Rhagfyr 5ed 2017.Ystafell 4J, 4ydd Llawr Undeb y Myfyrwyr 5yhSeneddwyr yn Bresennol:

Amr Alwishah	George Baldwin	Joshua Lewis
Adarsh Bansal	George Watkins	Joshua Prior
Aditi Gupta (<i>Cadeirydd</i>)	Hanin Abou Salem	Julia Rooke
Alani Padzil	Henrietta Page	Kabira Suleman
Cameron Rose	Jac Brown	Lewis Rigley
Catherine Chamberlain	Jane Hobbs	Matt Medveczki
Catherine Iannucci	Janet Williams	Niall Yasseen
Charles Knights	Jessica Warren	Tomos Llewelyn
Connor Radcliffe	Jesslyn Priscilla	Ye Yang

Swyddogion Sabothol yn Bresennol:

Fadhila Al Dhahouri (IL Addysg)

Jake Smith (IL Myfyrwyr Ôl-raddedig)

Staff Undeb y Myfyrwyr yn bresennol:

Steve Wilford (Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyfranogiad)

Steve Ralph (Pennaeth Llais Myfyrwyr)

Holly Thomas (Cydylydd Llais Myfyrwyr)

Vicki Groves (Cynorthwydd Llais Myfyrwyr) (*Cofnodion*)

I. Eitemau Sylfaenol:

A. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Jacob Morris, Mathilde Fouani a Taz Jones.

B. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawodd AG bawb i'r cyfarfod.

C. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nid oedd unrhyw newidiadau i'r cofnodion a chafwyd eu cadarnhau fel cofnod cywir.

II. Eitemau Undeb y Myfyrwyr

A. Diwygiadau Is Ddeddfau

Cyflwynodd Steve Wilford Diwygiadau'r Is Ddeddfau ac esbonio mai newidiadau enwau ar gyfer y rolau Swyddogion Sabothol a basiwyd yn y CCB yw'r newidiadau.

Cymeradwywyd Diwygiadau'r Is-Ddeddfau

III. Eitemau a Gyflwynwyd:

A. Boicotio a chael gwared ar ledaenwyr aneddiadau Israel anghyfreithlon

Cynigydd: Cameron Rose

Eiliwyd gan: Amr Alwishah

Siaradodd CR dros y cynnig ac esbonio ei fod yn cyfeirio'n benodol at aneddiadau anghyfreithlon gan wladolion

Israel ar y Lan Orllewinol ble mae ymsefydlwyr wedi ymosod ar Palesteiniaid a'u caethiwo'n anghyfreithlon. Eglurodd nad yw'r cynnig ynghylch cymryd ochr yn y gwrthdaro, ond am foicotio nwyddau o setliadau anghyfreithlon Palesteiniaid i ddangos undod gyda'r Palestiniaid sy'n cael eu heffeithio.

Siaradodd MM yn erbyn y cynnig ac esbonio bod nifer o sylwadau yn ddi-sail ac nid oes unrhyw dystiolaeth i'w cefnogi. Mae angen gweithred condemnio, ond ni ellir ei alw yn 'apartheid'. Bydd pleidleisio dros y cynnig hwn yn pleidleisio'r geiriau hyn i gyfraith a gellid eu hystyried yn sarhaus. Nid yw boicotiau yn brifo'r llywodraeth, maent yn brifo'r bobl a gallai leihau eu safonau byw ymhellach.

Siaradodd AA dros y cynnig ac esbonio ei fod yn mater personol. Nid yw'r cynnig hwn ynghylch boicotio Israel, ond boicotio eu setliadau anghyfreithlon yn y Lan Orllewinol, sy'n dor sy'n perthyn i Balesteina ac yn eu hatal rhag gwneud mwy o elw. Mae yna materion hawliau dynol y dylai'r Senedd sefyll yn eu herbyn.

Siaradodd GB yn erbyn y cynnig ac esbonio y dylai'r Senedd greu polisau sy'n helpu myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd a dywedodd nad oedd y cynnig yn ddigon eglur.

Trafodaeth gyffredinol.

Nododd CR bod hwn yn bwnc dadleuol ac angerddol ac yn gofyn am ddewrder i siarad amdano ac esbonio bod y rhestr yn y cynnig o wefan BDS, sy'n siarad am sut gall Brifysgolion gymryd rhan. Rhoddodd enghraifft o Stephen Hawking yn tynnu allan o ddigwyddiad oherwydd pwysau gan Brifysgol ac esboniodd fod y cynnig hwn yn gymorth ymarferol, yn hytrach na datganiad, ac ateb di-drais.

Dywedodd MM fod yr iaith a ddefnyddir yn y cynnig yn anghywir a gofynnodd os mai'r cynnig hwn yw'r ffordd orau o wneud hynny. Gan foicotio'r setliadau hyn, rydych yn niweidio'r bobl sy'n byw yno.

Dywedodd TL bod boicotio cwmnïau mawr yn gallu achosi problemau eraill, megis ffatrioedd mawr yn cael eu symud a gallai hyn achosi Palesteiniaid i gollu eu swyddi. Nid yw rhai o'r cwmnïau yn cael eu cefnogi gan Brifysgol Caerdydd.

Dywedodd JPrior nad oes dystiolaeth bod BDS yn gweithio ac nid yw boicotiau yn newid polisi yn Llywodraeth Israel.

Gofynnodd JH sut y byddai'r boicot hwn yn gweithio'n logistaidd.

Atebodd CR y gallai'r Undeb lobio corfforaethau a'r Brifysgol ar gyfer Boicotio Academaidd.

Dywedodd MM na fydd yr Undeb yn boicotio'r setliadau yn helpu i gyflawni ateb heddychlon, yr holl fyddai'r cynnig hwn yn ei wneud yw achosi loes i'r bobl sy'n byw yno.

Dywedodd JW nad yw'r Senedd yn gwybod os yw'r busnesau yn yr ardal yn cyflogi Palesteiniaid, Israeliaid neu'r ddau. Mae hanes yn dweud nad yw boicotio llywodraethau cryf bob tro yn bosib ac mae ymgyrchu yn ffordd gwell i sicrhau heddwch. Gofynnodd os fyddai boicotio Prifysgol yn gallu effeithio ar y myfyrwyr.

Tynnodd CR y cynnig yn ôl.

B. Refferendwm UCM

Cynigydd: Tomos Llewelyn

Eiliwyd gan: Prashant Garg

Cynigodd TL newid i Senedd yn penderfynu 1 i “Dylai Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd derfynu....” O “Dylai Prifysgol Caerdydd derfynu...”

Siaradodd TL dros y cynnig ac esbonio y dylid cael refferendwm ac fe fyddai'n gostwng difaterwch myfyrwyr gydag etholiadau. Mae Prifysgolion eraill wedi cael pleidleisiau tebyg ac fe wnaeth o leiaf 5 bleidleisio i derfynu i haelodaeth. Nid yw'n fater a ddylem dorri aelodaeth neu beidio, mae'n ymwneud â rhoi'r dewis i fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

Siaradodd GB yn erbyn y cynnig ac esboniodd nad yw'n esbonio pam y dylid cynnal refferendwm ac nid yw'n nodi unrhyw ddadleuon o blaid neu'n erbyn UCM. Yn y CCB diweddar, roedd pleidlais amlwg am ail-ymaelodi â'r UCM. Hefyd nid yw'r cynnig yn ystyried cost o gynnal refferendwm.

Siaradodd CK dros y cynnig ac esbonio bod nifer o fyfyrwyr ag anableddau yn teimlo nad ydynt yn cael eu cynrychioli yn y cynadleddau ac yn y CCB bod yr ail-ymaelodi yn cael eu cymysgu gyda phleidleisiau eraill fel u bod yn gallu dweud eu dweud. Eglurodd y byddai mwy o sgwrs ar y pwnc hwn o fudd i fyfyrwyr.

Siaradodd JH yn erbyn y cynnig ac esbonio bod myfyrwyr cysylltiedig sy'n defnyddio gwasanaethau'r Undeb ac nid ydynt yn gwybod digon am y pwnc, a ddim eisiau refferendwm. Os nad ydynt yn deall yna efallai na fydd myfyrwyr eraill yn chwaith.

Trafodaeth gyffredinol.

Gofynnodd AA pam y dylid cynnal y refferendwm hwn mor fuan ar ôl y CCB.

Atebodd TL bod y CCB yn etholaeth llai na beth fyddai'r refferendwm ac fe ymataliodd rhai pobl yn y CCB. Bydd pobl yn fwy gwybodus ac yn derbyn gwell dealltwriaeth gyda refferendwm.

Dyweddodd CR bod Caerwysg wedi cael 2 refferenda mewn 2 flynedd ac er iddynt gynyddu ymgysylltiad, roedd dal nifer o fyfyrwyr heb gymryd rhan. Awgrymodd y gallai fod refferendwm heb fod yn rhwymol.

Atebodd TL ei fod yn bwysig i roi llais i fyfyrwyr a dweud mai un rhwymol fyddai'r ffordd orau ymlaen.

Cytunodd HP bod difaterwch myfyrwyr gyda'r etholiadau a phenderfyniadau eraill, ond fe wnaeth fyfyrwyr bleidleisio i gadw'r UCM yn y CCB a'r bobl yn y CCB sydd fwyaf ymgysylltiedig. Nis yw'r UCM yn berffaith ond dylid fynd i'r afael â materion o'r tu mewn i elwa o'r manteision.

Dyweddodd JL y bydd refferendwm i gynyddu ymgysylltiad ddim yn cael effaith barhaus gydag etholiadau arall Undeb y Myfyrwyr. Bydd y gost i'r Undeb yn uchel a nid oes digon o dystiolaeth i'w gefnogi a'i gyfiawnhau. Mae Nodiadau Senedd 2 yn defnyddio 'ymddiried' ac mae hyn yn awgrymu nad yw'r Undeb yn ymddiried yn eu myfyrwyr.

Esboniodd HAS bod gan UCM 7 miliwn o fyfyrwyr yn gysylltiedig a bod dadleuon o blaid ac yn erbyn yr UCM. Mae cardiau myfyrwyr UCM yn dod â £33,000 ac yn rhoi elw i'r Undeb. Mae angen i gynrychiolwyr UCM fynd i gynadleddau UCM i gyflwyno buddiannau myfyrwyr. Awgrymodd y byddai'n well cael ymgyrch cyn cynnal refferendwm, fel myfyrwyr yn fwy gwybodus.

Amlinellodd JS rhai buddiannau ar gyfer yr Undeb gan yr UCM, gan gynnwys ei ymgyrchodd ar gyfer myfyrwyr, ei gyrsiau a chynadleddau ar gyfer Swyddogion Sabothol a staff a cherdyn UCM Cymru.

Dyweddodd TL mai refferendwm yw'r ffordd gorau i godi ymwybyddiaeth o'r UCM ac mae costau eraill yn gysylltiedig gyda'r UCM ac eithrio cysylltiadau, er enghraifft trafndiaeth i gynadleddau.

Nododd MM bod y Senedd yn gynrychiolwyr o fyfyrwyr yn cael eu hethol i wneud y penderfyniadau hyn, yn hytrach na chynnal refferenda ar gyfer bob penderfyniad. Bydd lleisiau myfyrwyr sydd angen mwy o gynrychiolaeth yn cael eu colli mewn refferendwm.

Dyweddodd JW y gellir ymgysylltu â myfyrwyr drwy ymgyrchoedd a mwy o wybodaeth.

Cyfrifodd TL ar gyfer y cynnig.

Cynnig yn Cwmpo

IV. Unrhyw Fusnes Arall

A. Cynigion sy'n Darfod

Cynigion a basiwyd 02/12/14

- Archebion Allanol
- Gofod Tyfu Myfyrwyr

B. Grwpiau Ffocws Senedd

Esboniodd SR y bydd Llais Myfyrwyr yn cynnal 4 grŵp ffocws ddydd Gwener ar newid strwythur y Senedd a sut mae'n mynd ymlaen. Anfonir gwybodaeth am grwpiau ffocws yfory.

C. Cadarnhau Ymddiriedolwyr

Esboniodd SW bod Ymddiriedolwyr yn gyfrifol yn gyfreithiol dros y sefydliad ac mae'r Is Ddeddfau yn rhoi'r cyfle i ymddiriedolwyr myfyrwyr i gael 2 tymor yn y rôl. Mae Alex Williams a Lily Ryan Harper hanner ffordd drwyddo ac eisiau parhau am y tymor nesaf.

Cymeradwywyd Alex Williams a Lily Ryan Harper fel Ymddiriedolwyr myfyrwyr.

ADRAN II

A. Cynigion ar gyfer newid Senedd y Myfyrwyr

Cynigion ar gyfer newid Senedd y Myfyrwyr – fel yn ôl y gweithgor a grëwyd gan Senedd Myfyrwyr 2016/2017. Gofynnir i seneddwr ddarparu adborth ar y tri cynnig fel y gellir gwneud gwaith pellach i freinio'r cynigion cyn Senedd fis Chwefror. Ni fydd pleidlais ar y cynigion hyn, dim ond y cyfle i roi adborth drwy gyfrwng nodiadau post-it.

Cynnig 1 – Pleidlais Ar-lein, gyda phleidlais Senedd y Myfyrwyr i ddilyn

Cynnig 2 – Pleidlais Ar-lein yn dod yn gorff llunio Polisiâu

Cynnig 3 – Pleidlais ar-lein, gyda phleidlais Senedd y Myfyrwyr i ddilyn – gyda chynnydd yn y myfyrwyr a ddewiswyd ar hap

Cynnig 1 – Pleidlais Ar-lein, gyda phleidlais Senedd y Myfyrwyr i ddilyn

1. Myfyriwr yn cyflwyno syniad ar gyfer polisi / ymgyrch / gweithgaredd gan undeb y myfyrwyr
2. Myfyrwyr yn derbyn y cyfle i 'bleidleisio i fyny' neu 'bleidleisio i lawr' ar gyfer y syniad am bythefnos
3. Os bydd y syniad yn cyrraedd 500 'pleidlais i fyny' o fewn y pythefnos hwnnw, yna fe'i cymerir at y gwneuthurwr penderfyniad priodol e.e Senedd Myfyrwyr
4. Mae Senedd y Myfyrwyr yn dadlau ac yn pleidleisio ar y syniad

Nodiadau:

- Byddai'r holl bolisiau yn gorfod mynd drwy'r system electronig yn gyntaf cyn mynd i'r Senedd
- Os yw'r polisi yn methu cyrraedd 500 ni fydd yn cael ei drafod gan y gwneuthurwr penderfyniad
- Bydd hefyd angen ail-gyflwyno polisi sy'n dod i ben drwy'r broses hon
- Byddai 6 Senedd Myfyrwyr bob blwyddyn
- Byddai Cymeradwyaeth Ymddiriedolwyr neu Is Ddeddfau yn mynd drwy bleidlais ar-lein na fydd â cworwm, yn hytrach terfyn amser gyda'r mwyafrif o 75% mewn lle
- Os bydd y syniad yn ymwneud yn uniongyrchol â rhywbeth y byddai angen cymeradwyaeth yr Ymddiriedolwyr, bydd Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r person a gyflwynodd y syniad

- Byddai unrhyw benderfyniadau sy'n galw am refferendwm fel y nodir yn y dogfennau llywodraethu angen refferenda (h.y. Dileu Swyddogion neu Ymlyniadau)

Cynnig 2 – Pleidlais Ar-lein yn dod yn gorff llunio Polisiâu

1. Myfyriwr yn cyflwyno syniad ar gyfer polisi / ymgyrch / gweithgaredd gan undeb y myfyrwyr
2. Myfyrwyr yn derbyn y cyfle i 'bleidleisio i fyny' neu 'bleidleisio i lawr' ar gyfer y syniad am bythefnos
3. Os bydd y syniad yn cyrraedd 500 o 'bleidleisiau i fyny' o fewn y pythefnod hynny, daw yn bolisi Undeb

Nodiadau:

- Os yw'r polisi yn methu cyrraedd 500 ni fydd yn cael ei drafod gan y gwneuthurwr penderfyniad
- Bydd hefyd angen ail-gyflwyno polisi sy'n dod i ben drwy'r broses hon
- Byddai Cymeradwyaeth Ymddiriedolwyr neu Is Ddeddfau yn mynd drwy bleidlais ar-lein na fydd â cworwm, yn hytrach terfyn amser gyda'r mwyafrif o 75% mewn lle
- Os bydd y syniad yn ymwneud yn uniongyrchol â rhywbeth y byddai angen cymeradwyaeth yr Ymddiriedolwyr, bydd Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r person a gyflwynodd y syniad
- Byddai unrhyw benderfyniadau sy'n galw am refferendwm fel y nodir yn y dogfennau llywodraethu angen refferenda (h.y. Dileu Swyddogion neu Ymlyniadau)

Cynnig 3 – Pleidlais ar-lein, gyda phleidlais Senedd y Myfyrwyr i ddilyn – gyda chynnydd yn y myfyrwyr a ddewiswyd ar hap

1. Myfyriwr yn cyflwyno syniad ar gyfer polisi / ymgyrch / gweithgaredd gan undeb y myfyrwyr
2. Myfyrwyr yn deryn y cyfle i 'bleidleisio i fyny' neu 'bleidleisio i lawr' ar gyfer y syniad am bythefnos
3. Os bydd y syniad yn cyrraedd 500 'pleidlais i fyny' o fewn y pythefnos hwnnw, yna fe'i cymerir at y gwneuthurwr penderfyniad priodol e.e Senedd Myfyrwyr
4. Mae Senedd y Myfyrwyr yn dadlau ac yn pleidleisio ar y syniad

Nodiadau:

- Byddai'r holl bolisiau yn gorfod mynd drwy'r system electronig yn gyntaf cyn mynd i'r Senedd
- Os yw'r polisi yn methu cyrraedd 500 ni fydd yn cael ei drafod gan y gwneuthurwr penderfyniad
- Bydd hefyd angen ail-gyflwyno polisi sy'n dod i ben drwy'r broses hon
- Byddai 6 Senedd Myfyrwyr bob blwyddyn

- Byddai Cymeradwyaeth Ymddiriedolwyr neu Is Ddeddfau yn mynd drwy bleidlais ar-lein na fydd â cworwm, yn hytrach terfyn amser gyda'r mwyafrif o 75% mewn lle
- Os bydd y syniad yn ymwneud yn uniongyrchol â rhywbeth y byddai angen cymeradwyaeth yr Ymddiriedolwyr, bydd Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r person a gyflwynodd y syniad
- Byddai unrhyw benderfyniadau sy'n galw am refferendwm fel y nodir yn y dogfennau llywodraethu angen refferenda (h.y. Dileu Swyddogion neu Ymlyniadau)

ADRAN III

A. Dim Gwellt Plastig yn yr Undeb

Mae Senedd y Myfyrwyr yn nodi:

1. *Beth yw'r sefyllfa bresennol?*

Dywedwch wrth Senedd y Myfyrwyr ac yn bwysicaf oll, y rheini nad ydynt yn gwybod, beth sydd wir yn digwydd.

Cred Senedd y Myfyrwyr

1. Mae'r amgylchedd a chynaliadwyedd yn bryderon cynyddol ar gyfer y cyhoedd cyffredinol a myfyrwyr Caerdydd. Mae sbwriel yn ac o amgylch yr Undeb, yn enwedig ar nosweithiau clwb nos yn broblem amlwg, a'r broblem fwyaf yw'r gwellt plastig a photeli plastig. Byddai undeb glanach yn gwella'r amgylchedd ar gyfer myfyrwyr Caerdydd yn ystod noson glwb, ond hefyd yn gwella'r gymuned ehangach a lleihau effaith negyddol yr Undeb ar yr amgylchedd.

Penderfyna Senedd y Myfyrwyr

1. Lleihau maint y gwellt plastig a ddefnyddir gan y mannau bwyd a diod yn yr Undeb drwy leihau'r defnydd a chefnogi mudiadau amgylcheddol lleol megis 'The No Straw Stand'. Gellid gwneud hyn drwy benderfynu gwrthod defnyddio gwellt plastig yn gyfan gwbl a defnyddio gwellt bioddiraddadwy yn lle, neu o leiaf rhoi'r gwell plastig y tu ôl i'r cownter a dim ond eu defnyddio pan fo rhywun yn gofyn.

Cynigydd: Nia Jones

Eilydd: Jessica Warren

B. I Undeb y Myfyrwyr sicrhau amddiffyn myfyrwyr sy'n ymwneud â gwaith rhyw.

Mae Senedd y Myfyrwyr yn Nodi

- Mae dros filiwn o fyfyrwyr ar draws y wlad yn gweithio yn y diwydiant rhyw i helpu ariannu eu hastudiaethau.¹
- Mae gwaith rhyw yn cynnwys gweithgareddau rhywiol yn gyfnewid am dâl, dawnsio erotic a pherfformiadau neu wneud pornograffi.

Cred Senedd y Myfyrwyr

- Nid yw troseddoli gwaith rhyw yn atal myfyrwyr rhag gweithio o fewn y diwydiant ac mae'n ei gwneud yn anos iddynt geisio cyngor a chymorth cyfreithiol.
 - Mewn arolwg UCM yn 2016, roedd bron i hanner yr ymatebwyr wedi dweud y byddent yn teimlo'n "anghyfforddus iawn" yn mynd at yr heddlu os oeddent wedi profi dwyn eiddo, trais neu drais rhywiol gan gleientiaid neu reolwyr²
 - Mae 55% o'r gweithwyr rhyw yn ystyried eu hunain i gael rhyw fath o anabledd.³

Penderfyna Senedd y Myfyrwyr

- Bydd Undeb y Myfyrwyr yn llobio'r brifysgol i sicrhau nad yw unrhyw fyfyrwr yn cael eu gwahardd, neu eu cosbi fel arall o dan Adran 3.1 y Polisi Ymddygiad Myfyrwyr, am ymgysylltu mewn gwaith rhyw.
- I sicrhau bod cynghorydd cyfrinachol cefnogol y gall gweithwyr rhyw fynd atynt (e.e yn Cyngor i Fyfirwyr, Cymorth a Lles neu diwtor).
- I sicrhau bod y defnydd o proffylaxis ôl-gysylltiad (post-exposure prophylaxis) yn cael ei ystyried fel amgylchiadau esgusodol oherwydd y sgil-ffeithiau.

Cynigydd: *Cameron Rose*

Eilydd: *Henrietta Page*

¹ <http://www.telegraph.co.uk/education/universityeducation/student-life/11390633/The-students-turning-to-sex-work.html>

² <http://www.independent.co.uk/student/news/decriminalisation-of-student-sex-work-prostitution-to-pay-university-tuition-fees-a7111701.html>

³ <https://www.nusconnect.org.uk/articles/5-things-we-learned-from-the-student-sex-work-survey-e1d9>

C. Sicrhau bwrsariaethau a grantiau ar gyfer ôl-raddedigion mewn angen

Mae'r Senedd yn Nodi:

1. Mae yna 551,595 o fyfyrwyr ôl-raddedig yn y DU⁴
2. Mae llawer o brifysgolion ar hyn o bryd yn gweithredu cynlluniau ar gyfer myfyrwyr israddedig o gefndiroedd incwm isel. Mae'r cynlluniau fel arfer yn seiliedig ar ddata dadansoddiad incwm teulu prifysgolion a ddarperir gan broses ymgeisio UCAS. Ym Mhrifysgol Caerdydd er enghraifft mae'n werth hyd at £1,000 i bob myfyriwr. Mae'n darparu cymorth ariannol i'r rheini o gartrefi lle roedd y cyfanswm incwm asesiedig yn llai na £42,000⁵
4. Mae rhai prifysgolion yn darparu bwrsariaethau a grantiau ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig, unai mewn ffurf cynlluniau penodol neu drwy alluogi i fyfyrwyr gael eu hystyried ar gyfer cynllun bwrsari presennol y brifysgol ⁶⁷⁸ Fodd bynnag, mae hyn yn aml yn eithriad, gyda nifer o brifysgolion ddim yn cynnig unrhyw gymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig o gefndiroedd incwm isel, y tu hwnt i gronfeydd caledi argyfwng.
5. Mae hyn yn aml yn arwain at sefyllfa lle mae myfyriwr israddedig o gefndir incwm isel, neu o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, yn derbyn derbyn cymorth ariannol ar gyfer eu prifysgol ond nid yw myfyriwr ôl-raddedig o'r un cefndir yn derbyn yr un gymorth.
5. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bod arian ar gyfer prifysgolion Cymru i ddarparu grantiau a bwrsariau ar gyfer ôl-raddedigion o Gymru o gefndiroedd incwm isel yn 2018/19 2019/20⁹
6. Ni fydd cymorth ariannol ar gael ar gyfer myfyrwyr sy'n wreiddiol o tu allan i Gymru sy'n astudio yng Nghymru.

Cred y Senedd

1. Mae astudiaeth ôl-raddedig yn ddatblygiad hanfodol i lawer o fyfyrwyr, boed i ailhyfforddi mewn maes newydd o astudio neu i arbenigo yn eu maes astudio penodol. Mae astudiaeth ôl-raddedig felly yn arf defnyddiol i ehangu cyfranogiad a dysgu gydol oes.
2. Mae astudiaeth ôl-raddedig wedi bod yn rhy anodd ei fforddio am ormod o amser ar draws y

⁴ <https://www.hesa.ac.uk/data-and-analysis/students>

⁵ <https://www.cardiff.ac.uk/study/undergraduate/funding/bursaries>

⁶ <https://www.manchester.ac.uk/study/masters/funding/uk-eu-student-advice/masters-bursary/>

⁷ <https://www.bangor.ac.uk/studentfinance/postgrad/funding.php.en>

⁸ <https://www.bradford.ac.uk/fees-and-financial-support/university-scholarships-and-support/info/postgraduate-bursary-2015-16>

⁹ <http://gov.wales/newsroom/educationandskills/2017/maximum-tuition-fee-in-wales-will-remain-9000-kirsty-williams/?lang=en>

DU oherwydd diffyg cefnogaeth ariannol, boed o lywodraethau neu brifysgolion.

4. Nid yw benthyciadau ôl-raddedigion y llywodraeth sy'n cael ei gynnig i fyfyrwyr gan eu llywodraethau yn amrywio yn ddibynnol ar incwm teulu ar hyn o bryd, yn golygu nad yw myfyriwr o gefndir incwm isel yn derbyn mwy o gefnogaeth nag unrhyw fyfyrwr eraill.

5. Bydd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru o fwrsariau a grantiau, er yn cael ei groesawu, yn creu anghysondeb ym mhrifysgolion Cymru lle bydd myfyrwyr o Gymru yn cael mynediad at grantiau a bwrsariaethau, ond ni fydd myfyrwyr o gefndiroedd llai breintiedig o rywle arall yn derbyn mynediad i unrhyw gymorth ariannol.

6. Dylai'r UCM frwydro dros gefnogaeth ariannol i fyfyrwyr sydd ei angen fwyaf.

7. Mae nifer y myfyrwyr ôl-raddedig yn tyfu, ac mae mwy o swyddi yn gofyn am gymhwyster ôl-raddedig. Er bod diffyg cymorth ariannol yn bodoli, mae'n risg y bydd astudiaeth ôl-raddedig yn dod yn fwyfwy tuag at myfyrwyr o gefndiroedd breintiedig a myfyrwyr o gefndiroedd incwm isel methu fforddio cwrs ôl-raddedig.

8. Nododd y Swyddfa Mynediad Teg yn 2015 bod myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig yn llai tebygol o astudio ar lefel ôl-raddedig na'u cyfoedion mwy breintiedig¹⁰ Roedd hyn yn adleisio ymchwil UCM yn 2015 a ganfu bod o'r rheini nad oedd yn ystyried astudiaeth ôl-raddedig, doedd 38.5% ddim yn gwneud hynny oherwydd pryderon fforddiadwyedd¹¹ Canfuwyd bod 7% yn fwy o fyfyrwyr a astudiodd mewn ysgolion preifat yn ystyried astudiaeth ôl-raddedig na graddedigion o ysgolion gwladol. Daeth y Swyddfa Mynediad Teg i'r casgliad bod hyn yn bryder mawr gan bod astudiaeth ôl-raddedig yn "dod yn gam bwysig i nifer o yrfaedd".

9. Byddai gwneud astudiaeth ôl-raddedig yn fwy fforddiadwy i fyfyrwyr o gefndiroedd incwm isel yn galluogi mwy o fyfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig i fforddio astudiaeth ôl-raddedig a sylweddoli y cyfleoedd gwyb sydd yn dod o sgil hynny.

9. Dylai'r UCM frwydro dros gefnogaeth ariannol i ôl-raddedigion sydd ei angen fwyaf.

Mae'r Senedd yn Penderfynu:

1. I Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd i gyflwyno'r cynnig hwn i'w ystyried yng Nghynhadledd Cenedlaethol yr UCM gyda'r penderfyniadau canlynol:
2. I UCM lobio Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid i brifysgolion i greu cynlluniau sylweddol o fwrsariau a grantiau ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig o gefndiroedd incwm isel.

¹⁰ <https://www.offa.org.uk/press-releases/students-from-disadvantaged-backgrounds-missing-out-on-postgraduate-study-offa-comment-on-analysis-of-postgraduate-support-scheme/>

¹¹ <https://www.nus.org.uk/PageFiles/12238/Debt%20In%20The%20First%20Degree%20-%20Graduates%20Survey%202015%20Report.pdf> P.11

3. I'r UCM ysgrifennu at bob aelod o Bwyllgor Dewis Addysg Tŷ'r Cyffredin am bwysigrwydd cymorth ariannol i ôl-raddedigion o gefndiroedd difreintiedig.
4. I'r UCM greu pecyn cymorth ac adnoddau i Undebau Myfyrwyr i'w helpu i wneud achos i'w prifysgol am greu cynlluniau bwrsariaethau a grantiau sylweddol ar gyfer ôl-raddedigion o gefndiroedd incwm isel.

Cynigydd: Jake Smith

Eilydd: George Baldwin

D. Sychwyr dwylo gwell yn y ASSL

Mae Senedd y Myfyrwyr yn Nodi

1. *Mae gan y Llyfrgell Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithasol doiledau ar y llawr gwaelod, y llawr cyntaf a'r ail lawr*
2. *Mae gan y toiledau ar y llawr gwaelod a'r ail lawr 2 sychwyr dwylo o ansawdd isel iawn yn y toiledau*
3. *Mae'r peiriannau sychu dwylo yn cael trafferth i gyflawni gweithdrefn sychu dwylo digonol*
4. *Nodwyd fodd bynnag nad oes gan undeb y myfyrwyr reolaeth uniongyrchol dros yr ASSL*

Cred Senedd y Myfyrwyr

1. *Mae'r sychwyr dwylo yn wan iawn, maent naill ai'n chwythu ychydig o aer neu aer oer iawn, nid yw un o'r rhain yn addas*
2. *Nid oes llawer o fyfyrwyr yn sychu eu dwylo gyda'r sychwyr dwylo gan ei fod yn wastraff amser.*
3. *Mae'r rhai sydd yn sychu eu dwylo yn defnyddio'r ddau sychwr ar yr un pryd i gyflymu'r broses – nid yw hyn yn ddymunol*

Penderfyna Senedd y Myfyrwyr

1. *Bod undeb y myfyrwyr yn lobio Prifysgol Caerdydd drwy ddulliau perthnasol (Swyddogion Sabothol) am well sychwyr dwylo yn nhoiledau'r ASSL.*
2. *Byddai pasio'r cynnig hwn yn dangos dymuniadau Senedd y Myfyrwyr a myfyrwyr, na all Prifysgol Caerdydd ei anwybyddu gan y rhedir yr ASSL yn sylfaenol ar gyfer myfyrwyr*

Cynigydd: George Baldwin

Eilydd: *Catherine Iannucci*